# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygnor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Tregarth ar
**Nos Iau 18 Mai 2023 am 18.30**

**PRESENNOL:**
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd Iwan Hywel
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Gareth P Williams
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd David H Roberts
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Anwen Jones

**Cynghorydd Sir**
Cyng. Beca Roberts

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cyng. Huw Jones. Diolchwyd i'r Cynghorydd am gymeryd yr awennau ar fyr rybudd.
**Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Mair Owen Pierce, Lowri Jones a Carwyn Edwards.

2. **Cofnodion**
**Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2023.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

3.1 **Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig –** Cadarnhawyd bod Cyngor Gwynedd yn edrych ar fan welliannau yn yr ardal i geisio arafu traffig a bydden nhw hefo gwell syniad o be allwn nhw ei gynnig yn yr wythnosau nesaf. Dim diweddariad hyd yn hyn.

3.2 **Llecyn Tir, Bont Tŵr –**Cadarnhawyd fod cwmni Savills yn edrych i fewn i'r mater, ac mi fydden nhw yn cysylltu yn ôl yn fuan iawn.

3.3 **Llwybr Rhif 3 –** Adroddwyd fod y Clerc a'r Cyng. Dafydd Roberts wedi cyfarfod gyda'r Swyddog Llwybrau, Rob Jones ar y safle. Nodwyd fod y llwybr hwn hefo llawer o rhwystrau, yn cynnwys diffyg arwyddion, giatiau a ffens drydan. Nodwyd mai llwybr categori 4 yw hon, ac felly nid oes arian ar gael ar gyfer y gwelliannau mewn sylw. Penderfynwyd y bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod gyda rheolwr y swyddog i drafod y posibilrwydd o newid y categori hwn.

3.4 **Drychau traffig, Lon y Grug/Llwybr Main -** Y Clerc wedi gwneud cais am ddau drych, un bob ochr. Derbyniwyd adolygiad gan y Swyddog Traffig, ac yn flaenorol container a coed sydd yn blocio gweledＥdd ar y cyffordd. Mae gan y tirfeddianwyr cyfrifoldeb i gadw'r cyffordd sydd ar terfyn ei tir yn clir o unrhyw rhwystrau. O ganlyniad, fydd y Cyngor yn mynd ymlaen i ofyn am gyngor gan yr adran Priffyrdd ar sut bydd y ffordd orau i ddelio gyda'r mater hwn. Dim diweddariad hyd yn hyn.

**3.5 Lôn y Wern, Tregarth** – y Cyng. Sian Beidas wedi danfon lluniau ymlaen at y Clerc – y Clerc i ddanfon y lluniau at yr adran Priffyrdd.

**3.6 Mainc Pentref Llandygai –** Nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i ariannu fainc newydd ar hyn o bryd. Y Clerc i ail godi'r mater ym mis Hydref 2023 ar ôl i'r ail daliad archeb gael ei dderbyn.

**3.7 Adra – Ymateb i llythyr Datblygiad Cae Gors** –Derbyniwyd ymateb gan Julie James AS, dim angen gweithred pellach ar hyn o bryd.

**3.8 Hysbysfwrdd ger Ysgol Tregarth –**Y Clerc i weld os oes modd atgyweirio'r hysbysfwrdd gwreiddiol.

**3.9 Lon Hafodty -** Adroddwyd fod y tyllau wedi gael ei llenwi, ond fod bwlch dal wedi disgyn, y Clerc i holi Cyngor Gwynedd. Y Cyng. Anwen Jones i ddanfon llun at y Clerc.

**3.10 Llwybrau Cyhoeddus -** Y Clerc i drefnu cyfarfod gyda'r Is-bwyllgor llwybrau i drafod y tendr.

**3.11 Palmant Allt Cerrigllwydion –** Adroddwyd fod ychydig o waith glanhau wedi ei gwblhau, ond fod y gwaith ddim digon da. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.llawr o fwsog ar hyd y palmant hwn – y Clerc wedi adrodd i Cyngor Gwynedd.

**3.12 Materion priffyrdd** – Cadaranhawyd y bydd Steffan Jones, Cyngor Gwynedd yn mynychu'r cyfarfod ym mis Mehefin.

**3.14 Glanhau cysgodfannau bws** – Y Clerc wedi gofyn i'r Swyddog Cynnal glanhau'r llochesi bws – y Clerc i ofyn am ddiweddariad.

**3.15 Seddi Gwag –**Y Clerc wedi hysbysebu'r dwy sedd wag eto. Penderfynwyd y bydd y Clerc yn llythyru'r pentref, ac i holi'r Cyng. Dafydd Meurig.

**3.16 Biniau Baw Ci** – Penderfynwyd y bydd y Cyng. Beca Roberts yn gwneud cais am finiau newydd – un yn Sling ac un ar Lon y Grug,

**4. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Mai 2023'

**Cyflwynwyd**: Pwyllgor Codi Arian Dyffryn Ogwen – Eisteddod Genedalethol Llyn ac Eifionydd – Penderfynwyd nid yw'r Cyngor Cymuned mewn sefyllfa ariannol i rhoi rhodd ariannol, ac eu bod yn rhoid blaenoriaeth i achosion lleol yn unig ar hyn o bryd.

**Cyflwynwyd:** Cyngor Cymuned Pistyll – Diffyg hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg – Adroddwydd y Cyng. Sian Beidas fod Un Llais Cymru hefo 76 sesiwn hyfforddiant, ac dim ond 6 o rhain oedd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Penderfynwyd cefnogi Cyngor Cymuned Pistyll.

**Cyflwynwyd**: Parc Cenedlaethol Eryri – Gweminar Aelodaeu Cynghorau Cymuned – Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol – Penderfwynyd y bydd y Cyngr. Dafydd Roberts a Lowri Jones yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned.

**5. Gwaith y mis**

**Gwasanaeth Bws 67 –** Cafwyd trafodaeth ynglyn a'r gwasanaeth Bws a'r deiseb diweddar gan Catrin Wager. Nodwyd fod y gwasanaeth hwn ddim yn troi nag yn stopio yn Llys y Gwynt ddim mwy, ac fod llawer o bobl yn defnyddio'r arhosfan yma. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd os oes modd gael arhosfan yma, ac efallai y bydd modd gael 'pull-in bay' ar yr A5.

**Coedwig Moelyci –** Nodwyd fod llawer o bryderon gan drigolion lleol am y cynllun torri coed arfaethedig ym Moelyci. Y Clerc i gwahodd Cath McNulty o Cyfoeth Naturiol Cymu i gyfarfod mis Gorffennaf.

**6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr**
**Canolfan Tregarth –** Cafwyd diweddariad gan y Cyng. Dafydd Owen am materion y Ganolfan.
**Ysgol Bodfeurig a Tregarth –** Adroddwyd fod y Pennaeth, Mrs Lliwen Jones yn gadael ei swydd diwedd tymor yr Haf, ac y bydd hi'n golled enfawr i'r ddwy ysgol.

**7. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**
**7.1** Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc hyd yn hyn. Derbyniwyd yr adroddiad.

**8. Taliadau**
Dim.

**9. Penderfyniadau Cynllun**

| | |
|---|---|
| **C23/0072/16/LL** | Plot C6, Parc Bryn Cegin, Llandegai,<br>Codi adeilad ar gyfer Dosbarthiadau Defnydd B1/B2,/B8 (gyda Chownter Masnach mewn unrhyw uned B8) ac adeilad i'w ddefnyddio fel Masnachwr Adeiladwyr (storio, dosbarthu, cownter masnach, swyddfeydd a manwerthu ategol) gyda storfa allanol gysylltiedig, ardal arddangos, mynediad, parcio, goleuadau, ffensys, tirweddu caled a meddal.<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C18/0767/16/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dwr aflan. Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd a gwelliannau i'r goedlan presennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda pwyntiau gwefru trydan.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C22/1153/16/LL** | Tir gyferbyn Pant yr Ardd, Tregarth<br>Adeiladu 2 annedd ar wahân, trefniadau mynediad newydd a pharcio. Byddai un tŷ ar gael ar y farchnad agored a'r llall yn dŷ fforddiadwy ecwiti ar y cyd.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/0277/16/DT** | 6 Maes Ogwen, Tregarth<br>Estyniad un llawr i'r cefn<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

| | |
|---|---|
| **C23/0237/16/DT** | 9 Pen y Ffriddoedd, Tregarth<br>Estyniad i ochr a blaen y modurdy / storfa presennol a chais ôl-weithredol am estyniad i'r cwrtil.<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C23/0271/16/RA** | Cwt yr Haul, Ffrwd Galed, Tregarth<br>Cais i ryddhau amodau 3 (manylion deunyddiau), 4 (Asesiad Ecolegol Cychwynnol), 5 (cynllun rheoli rhywogaethau ymledol) & 7 (Mesurau Osgoi Rhesymol) o ganiatâd cynllunio C22/0717/16/LL ar gyfer tŷ annedd newydd.<br>**Penderfyniad:** Amodau wedi'i rhyddhau yn llawn. |
| **C23/0315/16/LL** | Fferm Tan y Foel, Lon Rallt, Pentir<br>Codi tŷ gweithiwr amaethyddol.<br>**Penderfyniad:** Tynnwyd yn ôl. |

**10. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C23/0343/16/AC** | 2 Tan Y Bwlch, Mynydd Llandygai<br>Diwygio amod 2 o ganiatâd cynllunio C18/0511/16/LL ar gyfer creu estyniad llawr cyntaf yng nghefn yr eiddo er mwyn galluogi creu estyniad lai o faint<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad |
| **C23/0332/16/DT** | 26 Llwybr Main, Mynydd Llandygai,<br>Estyniad llawr gwaelod i gefn y tŷ presennol a phorth i flaen y tŷ.<br>**Penderfyniad:** Dim sylw. |
| **C23/0337/16/CR** | Pen y Llyn, Mynydd Llandegai<br>Codi lolfa haul ar ochr ty annedd<br>**Penderfyniad:** Dim sylw. |
| **C23/0386/16/LL** | Unit 16, Gatway Park Ystâd Ddiwydiannol Llandygai<br>Newidiadau arfaethedig i ffasâd blaen yr adeilad i gynnwys drws mynediad newydd i gerddwyr a drws caead rholio newydd.<br>**Penderfyniad:** Dim sylw. |

**11. Unrhyw fater brys arall**

Dim.